Polisi Athrofa Padarn Sant ar gyfer Archwilwyr Rhaglenni Academaidd

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfennau

Teitl y Ddogfen:	**Polisi Athrofa Padarn Sant ar gyfer Archwilwyr Rhaglenni Academaidd**
Awdur(on) (enw, teitl swydd ac adran):	Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Athrofa Padarn Sant
Rhif y Fersiwn:	3
Statws y Ddogfen:	Cymeradwywyd
Cymeradwywyd gan:	Uwch Dim Rheoli Athrofa Padarn Sant
Dyddiad Cymeradwyo:	12 Awst 2025
Dyddiad rhoi mewn grym:	Awst 2025
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	Mehefin 2028
Fersiwn a Ddisodlwyd:	2
Dogfennau Cysylltiedig:	Polisi Derbyniadau Athrofa Padarn sant

Hanes y Ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar Ddiwygiadau
2	Mehefin 2022	Kathryn Delderfield	• Wedi adolygu dogfennau perthnasol
3	Mawrth 2025	Kathryn Delderfield	• Man ddiwygiadau ac eglurdeb

Polisi Athrofa Padarn Sant ar gyfer Archwilwyr Rhaglenni Academaidd (APS)

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi

2. Cyflwyniad

3. Diffiniadau

4. Y Broses Dderbyn ar gyfer Archwilwyr

    4.1 Archwilwyr Rhaglenni

        4.1.1 Rhesymau dros Archwilio
        4.1.2 Y Broses Dderbyn ar gyfer Archwilwyr Rhaglenni

    4.2 Archwilwyr Modiwlau

        4.2.1 Rhesymau dros Archwilio
        4.2.2 Y Broses Dderbyn ar gyfer Archwilwyr Modiwlau

5. Trosglwyddo o un modd astudio i'r llall

    5.1 Trosglwyddo o archwilio i astudio am gredyd
        5.1.1 Ar ganol lefel
        5.1.2 Ar ôl cwblhau lefel

    5.2 Trosglwyddo o astudio am gredyd i archwilio

6. Yr hyn a ddisgwylir gan Archwilwyr

7. Ffioedd

2. Cyflwyniad

Mae rhaglenni achrededig Athrofa Padarn Sant yn bennaf ar gyfer y rheini sy'n gweithio tuag at ddyfarniad. Fel arfer, mae gan ddysgwyr sy'n astudio am gredyd gryn ymrwymiad i'r rhaglen, ac mae ffactorau ysgogi cryf ynghlwm wrth eu penderfyniad i astudio. Gall cyflwyno dysgwyr nad ydynt yn astudio am gredyd, nad ydynt o bosibl yn rhannu'r un ysgogiad ac ymrwymiad, gael effaith negyddol ar ddynameg carfan. Am y rheswm hwn, rhaid i'r penderfyniad ynghylch caniatáu i archwilwyr ymuno â rhaglen gael ei wneud yn ofalus iawn. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r amgylchiadau a'r prosesau lle y gellir caniatáu i ddysgwyr nad ydynt yn astudio am gredyd ymuno â rhaglen, a'r hyn a ddisgwylir gan y dysgwyr hynny.

Bydd Athrofa Padarn Sant yn trin archwilwyr mewn modd teg, hygyrch a chynhwysol.

3. Diffiniadau

Archwilydd – dysgwr sy'n cymryd rhan mewn rhaglen, ond nad yw'n ddysgwr cofrestredig.

Archwilydd rhaglenni – dysgwr sy'n ymgysylltu'n llawn â phroses ddysgu rhaglen achrededig, ar wahân i gyflwyno gwaith i'w asesu.

Archwilydd modiwlau – dysgwr nad yw'n archwilydd rhaglenni sy'n ymgysylltu'n llawn â modiwl unigol rhaglen achrededig at ddiben penodol.

4. Y Broses Dderbyn ar gyfer Archwilwyr

4.1 Archwilwyr Rhaglenni

4.1.1 Rhesymau dros Archwilio

Mae dysgu'n deillio o gysylltiad rhwng cymheiriaid yn ogystal â mewnbwn ar ffurf sesiynau tiwtorial. Mae fel arfer o'r budd gorau i unigolion a charfannau rhaglenni bod dysgwyr yn chwarae rhan lawn yn y rhaglen. Mae'n angenrheidiol er budd yr holl ddysgwyr bod pob dysgwr, gan gynnwys archwilwyr, yn ymgysylltu'n llawn â

phob agwedd ar y broses ddysgu. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb rheolaidd, cwblhau'r gwaith a osodwyd ac unrhyw dasgau heb eu hasesu. Yr unig ran o'r rhaglen na fyddai archwilydd yn ymgysylltu â hi yw cyflwyno gwaith i'w asesu. Nid yw'n arfer arferol gan Padarn Sant i dderbyn archwilwyr rhaglen, ond mae amgylchiadau eithriadol weithiau lle gall archwilwyr rhaglen gael eu derbyn.

Fel rhan o'i gais, byddai angen i ddarpar archwilydd ddangos ei ymrwymiad i'r rhaglen a rhoi rheswm da dros beidio ag astudio am gredyd. Gallai un rheswm o'r fath fod bod ganddynt gymhwyster eisoes ar lefel debyg. Weithiau gall problemau iechyd corfforol neu feddyliol neu anabledd fod yn rheswm pam nad yw unigolyn yn dymuno astudio am gredyd. Byddai Athrofa Padarn Sant yn dymuno sicrhau mewn amgylchiadau o'r fath bod y darpar ddysgwr wedi cael cysywllt â'r staff Cymorth Dysgu ac yn deall y cymorth sydd ar gael iddynt.

Ni fyddai peidio â bod â digon o amser i wneud gwaith a asesir ynddo'i hun fel arfer yn cael ei ystyried yn rheswm da dros archwilio. Fel arfer, byddai'n well bod darpar ddysgwr yn dilyn y rhaglen ar amser pan fyddant yn gallu ymrwymo'n llwyr iddi.

4.1.2 Y Broses Dderbyn ar gyfer Archwilwyr Rhaglenni

Dylid cyflwyno ceisiadau ar gyfer yr holl raglenni yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir. Gall y rheini sydd ag anableddau sy'n eu hatal rhag defnyddio'r ffurflen ofyn am y ffurflen gais mewn fformat gwahanol.

Bydd penderfyniadau ynghylch derbyniadau'n cael eu cyfathrebu â'r ymgeiswyr erbyn **31 Awst** cyn i'r rhaglen ddechrau.

Lle bydd ymgeisydd yn cael ei wrthod, bydd Arweinydd y Rhaglen yn ysgrifennu at yr unigolyn hwnnw, gan egluro'r rhesymau pam y gwrthodwyd y cais.

Bydd y penderfyniadau ynghylch derbyn archwilwyr rhaglenni yn cael eu gwneud gan y Bwrdd Derbyniadau perthnasol. Bydd aelodau'r Bwrdd yn ystyried yr hyn a ganlyn wrth wneud penderfyniad:

- Y rheswm dros wneud cais i archwilio rhaglen benodol, a pham mae cais yn cael ei wneud i archwilio yn hytrach nag astudio am gredyd. Nid yw'n arferol i Badarn Sant dderbyn archwilwyr rhaglen felly mae angen i'r ymgeisydd rhoi rheswm gryf dro wneud hynny.

- Ymrwymiad i ymgysylltu â'r rhaglen.
- Sut y byddai cynnwys yr archwilydd yn effeithio ar y garfan.
- Nifer y lleoedd sydd ar gael wedi i'r prosesau derbyn ar gyfer dysgwyr sy'n astudio am gredyd gael eu cwblhau, ond fel arfer ni fyddai mwy na 10% o'r dysgwyr ar unrhyw raglen achrededig yn dod yn archwilwyr.
- Lefel y cyflawniad/profiad academaidd. Er ei bod yn bosibl nad oes disgwyl i'r archwilwyr fodloni'r meini prawf derbyn ar gyfer dysgwyr sy'n astudio am gredyd, dylent gyfateb yn fras neu dylent allu dangos y gallant ymgysylltu'n llawn â'r lefel berthnasol er mwyn cymryd rhan ym mhob agwedd ar y rhaglen, ar wahân i'r darnau achrededig o waith. Mae llythrennedd mewn TG yn hanfodol.
- Rôl bresennol. Ar rai rhaglenni, mae'n hanfodol bod gan y dysgwyr rôl bresennol yn y proffesiwn y maent wedi'i anelu ato.
- Dealltwriaeth yr ymgeisydd o'r rhaglen y gwnaed cais amdani.
- Dealltwriaeth o amcanion ac ethos Athrofa Padarn Sant, a'u derbyn.
- Geirda boddhaol.
- Y gallu i dalu'r ffioedd.

Os bydd archwilydd wedi'i dderbyn ar un flwyddyn o raglen, mae'n debygol y bydd wedyn yn gallu parhau i flynyddoedd pellach gyda'r un garfan. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ffactorau fel niferoedd felly nid yw'n digwydd yn awtomatig. Bydd Arweinydd y Rhaglen yn cadarnhau gyda'r archwilydd ar ddechrau pob blwyddyn academaidd a fydd yn gallu parhau.

Argymhellir yn gryf bod y rheini sy'n mynd drwy'r broses ddirnadaeth yn gwneud cais am y rhaglen achrededig.

4.2 Archwilwyr Modiwlau

4.2.1 Rhesymau dros Archwilio

Mae'n bosibl y bydd adegau lle y bydd yn fuddiol i unigolyn ymgymryd â modiwl penodol ar raglen fel rhan o'u datblygiad gweinidogol neu alwedigaethol. Gallai enghreifftiau o bobl a allai fod yn gymwys i archwilio modiwl fod fel a ganlyn:

- Aelod o'r glerigiaeth neu weinidog lleyg a gydnabyddir fel rhan o'u datblygiad gweinidogaethol parhaus.
- Ymgeisydd y mae ei lwybr dysgu y cytunwyd arno yn cynnwys archwilio modiwlau perthnasol.

- Gweinidog sydd newydd gael trwydded y mae ei gytundeb dysgu yn cynnwys archwilio modiwlau perthnasol.
- Priod ymgeisydd amser llawn.

Ar wahân i gyflwyno gwaith i'w asesu, disgwylir i'r archwilwyr modiwlau ymgysylltu'n llawn â'r hyn a ddysgir ar gyfer y modiwl hwnnw, gan gynnwys unrhyw waith paratoi a thasgau sydd eu hangen ar gyfer y modiwl, yn ogystal â mynychu dosbarthiadau'n rheolaidd.

4.2.2 Y Broses Dderbyn ar gyfer Archwilwyr Modiwlau

Bydd y broses o archwilio modiwlau gan ymgeiswyr neu weinidogion sydd newydd dderbyn trwydded yn rhan o'u hyfforddiant y cytunwyd arno. Bydd cais ysgrifenedig i archwilio modiwl penodol yn cael ei wneud gan y Deon dros Hyfforddiant Gweinidogol Cychwynnol neu'r Deon Disgyblaeth at Arweinydd y Rhaglen.

Bydd yr holl ddarpar archwilwyr eraill yn gwneud cais ysgrifenedig yn uniongyrchol at Arweinydd y Rhaglen.

Bydd penderfyniadau'n cael eu cyfathrebu o leiaf bythefnos cyn i'r modiwl ddechrau.

Bydd penderfyniadau ynghylch derbyn Archwilwyr Modiwlau'n cael eu gwneud gan Arweinydd y Rhaglen. Byddant yn ystyried yr hyn a ganlyn wrth wneud penderfyniad:

- Y rheswm dros wneud cais i archwilio modiwl.
- Ymrwymiad i ymgysylltu â'r modiwl.
- Sut y byddai cynnwys yr archwilydd yn effeithio ar y garfan.
- Lefel y cyflawniad/profiad academaidd. Er ei bod yn bosibl nad oes disgwyl i'r archwilwyr fodloni'r meini prawf derbyn ar gyfer dysgwyr sy'n astudio am gredyd, dylent gyfateb yn fras neu dylent allu arddangos y gallant ymgysylltu'n llawn â'r lefel berthnasol er mwyn cymryd rhan ym mhob agwedd ar y rhaglen, ar wahân i'r darnau achrededig o waith. Mae llythrennedd mewn TG yn hanfodol.
- Rôl bresennol. Mae rhai rhaglenni'n ei gwneud yn ofynnol bod eu dysgwyr mewn rôl bresennol yn y proffesiwn y maent wedi'u hanelu ato.
- Dealltwriaeth yr ymgeisydd o'r modiwl y gwnaed cais amdano.
- Dealltwriaeth o amcanion ac ethos Athrofa Padarn Sant, a'u derbyn.

- Y gallu i dalu'r ffioedd (os yn berthnasol).

Os yw archwilydd wedi gwneud cais i archwilio un modiwl, yna ni chaiff ei gynnwys yn awtomatig mewn modiwlau pellach. Bydd angen i'r archwilydd ailymgeisio.

5. Trosglwyddo o un modd astudio i'r llall

5.1 Trosglwyddo o archwilio i astudio am gredyd

5.1.1 Ar ganol lefel

Os yw archwilydd rhaglen hanner ffordd drwy lefel ac yn dymuno ymgeisio i astudio am gredyd, bydd angen iddo wneud cais am y rhaglen achrededig ac, os bydd yn cael ei derbyn, gall ddechrau'r rhaglen eto yn y flwyddyn academaidd nesaf. Nid yw'n bosibl trosglwyddo o archwilio rhaglen i astudio rhaglen am gredyd hanner ffordd drwy lefel.

5.1.2 Ar ôl cwblhau lefel

Nid yw cwblhau un lefel fel archwilydd yn galluogi dysgwr i symud i astudio'r lefel nesaf am gredyd. Bydd angen i archwilydd rhaglen ymgeisio ar gyfer y rhaglen achrededig a chwrdd â'r gofynion mynediad priodol ar gyfer y lefel maen nhw'n ymgeisio amdano. Os nad ydynt yn cwrdd â'r gofynion mynediad ar gyfer y lefel maen nhw'n ymgeisio amdano bydd angen iddyn nhw ymgeisio i ddechrau'r rhaglen eto, y tro hwn i astudio am gredyd.

5.2 Trosglwyddo o astudio am gredyd i archwilio

Os nad yw dysgwr sy'n astudio am gredyd bellach yn dymuno gwneud hynny ond mae'n dymuno dod yn archwilydd rhaglenni, yna rhaid iddo dynnu allan o'r rhaglen a dilyn y prosesau derbyn a amlinellir yn adran **4.1** y polisi hwn. Mewn amgylchiadau eithriadol bydd y Bwrdd Derbyniadau yn gallu penderfynu rhoi mynediad i ddysgwr fel archwilydd rhaglen

6. Yr Hyn a Ddisgwylir gan Archwilwyr

Disgwylir i'r holl ddysgwyr, p'un a ydynt yn astudio am gredyd ai peidio, gymryd rhan lawn yn y rhaglen/modiwl y maent wedi'u derbyn ar ei gyfer. Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith paratoi ac ymgysylltu â sesiynau addysgu.

Bydd Archwilwyr Rhaglenni'n llofnodi Cytundeb Dysgwyr Athrofa Padarn Sant sy'n amlinellu'r hyn y gall yr archwilydd ei ddisgwyl gan Athrofa Padarn Sant a'r hyn y mae Athrofa Padarn Sant yn ei ddisgwyl gan y dysgwr.

Ni fydd disgwyl i archwilwyr gyflwyno gwaith i'w asesu.

Mae angen i'r holl ddysgwyr lynu wrth bolisïau Athrofa Padarn Sant, y gellir eu canfod yma.

Disgwylir i'r archwilwyr wneud pob ymdrech i fynychu'r holl sesiynau.

Rhaid i archwilwyr fod â lefel o gymhwysedd TG. Bydd y rhan fwyaf o'r adnoddau yn electronig, a bydd gwybodaeth yn cael ei chyfathrebu drwy gyfrif e-bost Athrofa Padarn Sant a bydd rhai rhaglenni'n cael eu haddysgu ar-lein.

Os oes gan archwilydd anabledd neu wahaniaeth dysgu, yna fe'i hanogir i ddatgelu hyn i'r Tîm Cymorth Dysgu yma **learningsupport@stpadarns.ac.uk** a fydd yn gweithio gyda'r archwilydd i wneud addasiadau rhesymol.

7. Ffioedd

Bydd ffioedd arferol y rhaglenni'n cael eu codi ar gyfer archwilwyr [1]. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch Bolisi Ffioedd a Chyllid Athrofa Padarn Sant yma. Gall methu â thalu'r ffioedd arwain at archwilydd yn cael ei dynnu oddi ar raglen.

[1] Nid yw ffioedd yn daladwy gan ymgeiswyr lle y mae'n rhan o'u rhaglen y cytunwyd arni. Ni chodir ffioedd ar briod ymgeisydd ar gyfer archwilio modiwlau BTh.